



Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 Y Sgwâr
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

Eich Cyf: MNOW-OP002

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 17 Mehefin 2024

Annwyl Gwlad Belg,

Deddf Gynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) (EPR) – Adran 88 a Rheol 6

Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona

Statws Person Arall mewn archwiliad

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi penderfynu rhoi statws 'Person Arall' (OP) i chi yn yr archwiliad. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn gohebiaeth berthnasol gan yr Arolygiaeth yn gysylltiedig â'r archwiliad hwn o'r cais hwn.

Eich rhif cyfeirnod yw: MNOW-OP002

O dan Adran 88(3) PA2008 a Rheol 6(1) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), gall yr Awdurdod Archwilio wahodd unigolion eraill yr ystyriant eu bod yn briodol i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. At ddibenion gwybodaeth, anfonir at unigolyn a wahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn y modd hwn, y llythyr Rheol 8 sy'n cadarnhau amserlen yr archwiliad, hefyd. Anfonir atynt yn ogystal unrhyw ddiwygiadau i'r amserlen honno o dan Reol 8(3) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Dylech drin y llythyr hwn felly fel eich gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol a gynhelir ar **Ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 am 10:00yb (cofrestru 09:30), ym mherson yn Venue Cymru, Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams**. Cafodd y llythyr 'Rheol 6' ei gyhoeddi ar **7 Mehefin 2024** a chafodd ei anfon at bob parti â buddiant, sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am y digwyddiad. Darperir cadarnhad o'ch statws fel 'unigolyn arall' yn Atodiad B.

Yn bwysig, dylech wybod nad oes hawl awtomatig i unigolion eraill wneud sylwadau yn ystod yr archwiliad, gan nad oes ganddynt statws partion â buddiant. Os byddwch yn

dymuno gwneud sylwadau, fodd bynnag, dylech eu cyflwyno i'r Awdurdod Archwilio yn unol â'r terfynau amser priodol a bennwyd yn amserlen yr archwiliad. Gallwch wneud cais hefyd i siarad mewn unrhyw wrandawiadau. O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i ganiatáu i sylwadau gan unigolion eraill, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Hefyd, gall unrhyw unigolyn, p'un a yw wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol neu beidio, wneud cais i fod yn barti â buddiant os yw'n bodloni'r meini prawf yn a102A PA2008. Os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir yr effeithir arno gan y cynllun, ac nad ydych eisoed wedi cofrestru i fod yn barti â buddiant, yna gallwch wneud cais i'r Awdurdod Archwilio i fod yn barti â buddiant o dan a102A PA2008.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, neu os oes angen eglurhad arnoch ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Jake Stephens

Jake Stephens
Rheolwr Achos